Statws *This is the original version (as it was originally made). Dim ond ar ei ffurf wreiddiol y mae'r eitem hon o ddeddfwriaeth ar gael ar hyn o bryd.*

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2013 Rhif 1724 (Cy. 168)

ADDYSG, CYMRU

Gorchymyn Corfforaeth Addysg Bellach Coleg Ystrad Mynach (Diddymu) 2013

Gwnaed - - - -	*9 Gorffennaf 2013*
Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru - -	*11 Gorffennaf 2013*
Yn dod i rym - -	*1 Awst 2013*

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Gorchymyn a ganlyn drwy arfer y pwerau a roddwyd gan adran 27C o Ddeddf Addysg Bellach ac Uwch 1992(**1**).

Yn unol ag adran 27C(2) o'r Ddeddf honno, mae Corfforaeth Addysg Bellach Coleg Morgannwg ("*Coleg MorgannwgFurther Education Corporation*")(**2**) wedi cydsynio i'r trosglwyddiad o eiddo, hawliau a rhwymedigaethau Corfforaeth Addysg Bellach Coleg Ystrad Mynach ("*Ystrad Mynach College Further Education Corporation*")(**3**).

Mae Gweinidogion Cymru wedi ymgynghori â Chorfforaeth Addysg Bellach Coleg Ystrad Mynach ("*Ystrad Mynach College Further Education Corporation*") yn unol ag adran 27C(6) o'r Ddeddf.

Enwi a chychwyn

1. Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Corfforaeth Addysg Bellach Coleg Ystrad Mynach (Diddymu) 2013 a daw i rym ar 1 Awst 2013.

Dehongli

2. Yn y Gorchymyn hwn, ystyr "y Ddeddf" ("*the Act*") yw Deddf Addysg Bellach ac Uwch 1992.

Diddymu a throsglwyddo

3. Ar 1 Awst 2013 mae Corfforaeth Addysg Bellach Coleg Ystrad Mynach ("*Ystrad Mynach College Further Education Corporation*") wedi ei diddymu a throsglwyddir ei heiddo, ei hawliau a'i rhwymedigaethau yn unol ag adran 27C(2) o'r Ddeddf i Gorfforaeth Addysg Bellach Coleg

(**1**) 1992 p.13; rhoddwyd adran 27C yn lle adran 27 fel y'i deddfwyd yn wreiddiol, gan Ddeddf Addysg 2011 (p.21), adran 49, Atodlen 12, paragraffau 1 a 7.

(**2**) A sefydlwyd fel "Pontypridd Technical College" gan Orchymyn Addysg (Corfforaethau Addysg Bellach) 1992 (O.S. 1992/2097).

(**3**) A sefydlwyd gan Orchymyn Addysg (Corfforaethau Addysg Bellach) 1992 (O.S. 1992/2097).

Morgannwg ("*Coleg Morgannwg Further Education Corporation*"), sef corff corfforaethol sydd wedi ei sefydlu at ddibenion sy'n cynnwys darparu cyfleusterau neu wasanaethau addysgol.

Trosglwyddo staff

4. Mae adran 26(2), (3) a (4) o'r Ddeddf yn gymwys i unrhyw berson a gyflogir gan Gorfforaeth Addysg Bellach Coleg Ystrad Mynach ("*Ystrad Mynach College Further Education Corporation*") yn union cyn 1 Awst 2013 fel petai'r cyfeiriadau yn yr adran honno—

(a) at berson y mae'r adran honno yn gymwys iddo yn gyfeiriadau at berson sy'n gyflogedig fel hynny;

(b) at y dyddiad gweithredol yn gyfeiriadau at 1 Awst 2013;

(c) at y trosglwyddwr yn gyfeiriadau at Gorfforaeth Addysg Bellach Coleg Ystrad Mynach ("*Ystrad Mynach College Further Education Corporation*"); a

(d) at y gorfforaeth yn gyfeiriadau at Gorfforaeth Addysg Bellach Coleg Morgannwg ("*Coleg Morgannwg Further Education Corporation*").

Huw Lewis
Y Gweinidog Addysg a Sgiliau,
un o Weinidogion Cymru

9 Gorffennaf 2013

NODYN ESBONIADOL

(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)

Mae'r Gorchymyn hwn yn diddymu'r gorfforaeth addysg bellach a sefydlwyd i redeg Coleg Ystrad Mynach a hynny'n effeithiol o 1 Awst 2013. Mae'n darparu ar gyfer trosglwyddo eiddo, hawliau a rhwymedigaethau Corfforaeth Addysg Bellach Coleg Ystrad Mynach i Gorfforaeth Addysg Bellach Coleg Morgannwg. Mae'r Gorchymyn hefyd yn diogelu hawliau cyflogaeth personau sy'n cael eu cyflogi gan Gorfforaeth Addysg Bellach Coleg Ystrad Mynach drwy gymhwyso, gydag addasiadau, adran 26(2) i (4) o Ddeddf Addysg Bellach ac Uwch 1992 (p.13) ("y Ddeddf").

Effaith cymhwyso adran 26(2) i (4) o'r Ddeddf yw cadw contractau cyflogaeth cyflogeion Corfforaeth Addysg Bellach Coleg Ystrad Mynach fel petai'r contractau cyflogaeth wedi eu gwneud yn wreiddiol rhwng y cyflogeion a Chorfforaeth Addysg Bellach Coleg Morgannwg. Daw cyflogeion Corfforaeth Addysg Bellach Coleg Ystrad Mynach yn gyflogeion Corfforaeth Addysg Bellach Coleg Morgannwg o 1 Awst 2013 ymlaen.

Ni luniwyd Asesiad Effaith Rheoleiddiol ar gyfer yr offeryn hwn, gan nad oes ganddo effaith ar gostau busnes.